

Cyfeiriadau'r Dyfodol ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru

Myfyrwyr fel Partneriaid: Gwersi a ddysgir
Mai 2013



future directions
for higher education in wales



cyfeiriadau'r dyfodol
ar gyfer addysg uwch yng nghymru





Cyflwyniad

Mewn ymateb i strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, Ar Gyfer ein Dyfodol (*Adran er Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau 2009*), cytunodd cynrychiolwyr o bob un o'r prif randdeiliaid mewn addysg uwch ar thema wella wedi ei ffocysu ar gyfer Cymru – Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol – wedi ei hadeiladu o amgylch tri phrif faes gwaith: Dysgu er cyflogaeth, Dysgu mewn cyflogaeth a Myfyrwyr fel partneriaid. Lanswyd y meysydd gwaith yn swyddogol ym Mawrth 2011 a dechreuodd y tri grŵp drafod sut y gallent fanteisio orau ar flaengarwch ac ymarfer o'r sector. Ysgogodd bob un o'r meysydd gwaith gasgliad o astudiaethau achos a gyhoeddwyd gan yr Academi Addysg Uwch yn Ebrill 2012.

Pwrpas y maes gwaith Myfyrwyr fel Partneriaid oedd i staff a myfyrwyr a oedd yn ymwneud ag addysg uwch yng Nghymru i rannu arfer da a datblygu syniadau i wella ymgysylltiad myfyrwyr. Mae'r maes gwaith yn cynnwys myfyrwyr a staff o bob sefydliad addysg uwch yng Nghymru, asiantaethau sector, a grŵpiau diddordeb yn cynnwys Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr (NUS) a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW).

Yn ystod y tair blynedd diwethaf mae'r grŵp wedi:

- Canolbwyntio ar **dri thema**:
 - Cynrychiolaeth myfyrwyr;
 - Myfyrwyr yn cefnogi myfyrwyr;
 - Datblygu cwricwlwm.
- **Astudiaethau achos** coladol yn manylu arfer presennol a gwaith datblygiadol;
- Cyflwyno ein siwrne a datblygu prosiectau dyfodol yng **ngyhynhadledd dysgu ac addysgu** Cyfeiriadau'r Dyfodol Cymru;
- Creu a dosbarthu **“Jargon buster”**: i ddiffinio'r acronymau a ddefnyddir ym maes addysg uwch;
- Trefnu **Myfyrwyr fel Partneriaid yn ymarferol**: digwyddiad sy'n galluogi i fyfyrwyr a staff addysg uwch i wella a datblygu dealltwriaeth o bartneriaethau gweithio;
- Clywed gan **siaradwyr gwadd arbenigol** y tu fewn a thu allan i Gymru;
- Adrodd ein casgliadau i **cynadleddau cenedlaethol y DU**.

Mae'r maes gwaith wedi galluogi i brifysgolion ac undebau myfyrwyr i werthuso'r prosiectau yr oeddent yn ymgymryd â nhw, deall eu gwerth a datblygu rhagor o brosiectau gan ddefnyddio profiadau pobl eraill.

Mae'r digwyddiadau ymarferol wedi galluogi i fyfyrwyr ar draws Cymru ddeall faint mae'r sector yn gwerthfawrogi mewnbyn myfyrwyr. Maent hefyd wedi rhoi'r cyfle i staff weithio gyda myfyrwyr ar faes chwarae cyfartal, er mwyn deall y rhwystrau, a brwdfrydedd myfyrwyr ar gyfer gweithio mewn partneriaethau.

Mae'r daflen hon yn ddogfen gwerthuso sy'n ceisio dod â gwersi a ddysgwyd at ei gilydd a gwybodaeth a ddysgwyd o'r maes gwaith ac o weithio gyda myfyrwyr (a staff) mewn partneriaeth yn ymarferol.

Astudiaethau achos

Cyflwynwyd astudiaethau achos gan staff a myfyrwyr o bob prifysgol yng Nghymru a oedd yn berthnasol i'r tri thema: cynrychiolaeth myfyrwyr, myfyrwyr yn cefnogi myfyrwyr, a datblygu cwricwlwm. Ceir crynodebau o'r tebygrwyddau a'r gwahaniaethau o fewn yr astudiaethau achos isod:

Cynrychiolaeth myfyrwyr

Mae gan bob sefydliad system o gynrychiolaeth myfyrwyr ond gyda hierarchaethau a strwythurau gwobrwyo amrywiol. Y tebygrwyddau a oedd yn tueddu i arwain at lwyddiant oedd:

- Cynrychiolwyr i **bob cwrs a modiwl**;
- Mwy o **uwch gynrychiolwyr** yn cael cyfrifoldebau ychwanegol;
- Cynrychiolwyr a oedd yn bwydo i fyny i Undebau Myfyrwyr ac uwch reolwyr sefydliadol;
- **Fforum** i gynrychiolwyr drafod materion traws-ddisgyblaethol;
- Cynrychiolwyr yn **casglu gwybodaeth** gan, ac yn bwydo yn ôl i fyfyrwyr;
- **Adroddwyd** llwyddiannau a rhwystrau bob blwyddyn, naill ai gan yr undeb neu uwch gynrychiolwyr;
- Gofynnwyd wrth gynrychiolwyr am **fwydo i mewn i bolisi strategol sefydliadol**;
- Llwyddodd sefydliadau ac undebau myfyrwyr i gau'r **ddolen adborth**; roedd myfyrwyr yn gwybod y gwahaniaeth roeddent wedi ei wneud.

Roedd gwahaniaethau yn cynnwys:

- **Gwobrwyo'r** uwch gynrychiolwyr:
 - Gall **manteision ariannol** wella safle cynrychiolwyr (e.e. cyflogedig fel staff) ond gallai hyn hefyd eu gwneud yn llai anibynnol;
 - Roedd **manteision nad ydynt yn ariannol** fel cyrsiau a thocynnau clwb rhad ac am ddim yn ffordd rhesymol o adlewyrchu braint ond yn denu ymgeiswyr a oedd yn ffocysu ar wobrau;
 - Roedd **seremonïau gwobrwyo** ar ddiwedd y flwyddyn yn gwobrwyo'r cynrychiolwyr a oedd yn cyflawni fwyaf yn gallu dathlu gwaith y lleiafrif yn unig.
- **Adnabod** y system o gynrychiolwyr:
 - Gall **dillad** a bathodynau nodi cynrychiolwyr yn glir ond dim ond trwy gynrychiolwyr yn eu gwisgo y mae hyn yn cael effaith, a dim ond pe bai pobl eraill yn ei weld fel rhywbeth cadarnhaol;
 - Gall **branding** a logos roi hunaniaeth ond gallent beidio â chael eu sylwi neu gallent achosi rhwyg;
 - Gall **diffyg adnabyddiad gweledol** arwain at ymwybyddiaeth isel o, neu gynrychiolwyr nad ydynt yn hawdd mynd atynt.

Myfyrwyr yn cefnogi myfyrwyr

Roedd nifer y prosiectau hyn yn cynyddu. Dyluniwyd y prosiectau o gwmpas prosesau sefydlu neu grŵpiau penodol o fyfyrwyr, fel myfyrwyr hŷn. Yn y mwyafrif o achosion, y sefydliad a oedd yn darparu'r cyllid, fframwaith neu oruchwyliaeth ar gyfer y prosiect, tra'r oedd y grŵpiau o fyfyrwyr naill ai yn cefnogi ei gilydd neu roedd gwirfoddolwyr yn cefnogi grŵp o fyfyrwyr agored i niwed. Tebygrwyddau a oedd yn tueddu i arwain at gydweithredu llwyddiannus oedd:

- **Asesu'r angen am gymorth** trwy gasglu data myfyrwyr;
- **Measur canlyniadau'r prosiect**, os yn bosib, trwy'r un ffynhonnell ddata;
- Myfyrwyr yn cael **perchenogaeth** o'r prosiect;
- **Cynyddu ymwybyddiaeth** o'r cymorth sydd ar gael;
- **Ymrwymiad** gan fyfyrwyr allweddol;
- **Rhyngweithiad** wedi'i hwyluso mewn ffordd a oedd yn briodol i'r grŵp o fyfyrwyr a dargedwyd;
- **Hyfforddiant** priodol ar gyfer myfyrwyr a oedd yn cefnogi myfyrwyr.

Datblygu cwricwlwm (Llais y myfyriwr mewn dysgu ac addysgu)

Dyma'r maes mwyaf newydd o gydweithredu myfyrwyr-staff o fewn y themâu ac mae'r astudiaethau achos yn adlewyrchu myfyrwyr yn ymgysylltu'n fwy gyda dylunio'u cwricwlwm. Arweiniodd hyn at newidd yn nheitl y thema hanner ffordd trwy ein gwaith i Lais y myfyriwr mewn dysgu ac addysgu.

Roedd gan lawer o sefydliadau yng Nghymru brosiectau graddfa-bach, ble'r oedd y myfyrwyr i gyd yn bwydo i ddatblygiad y blynyddoedd academiaidd 'roeddent wedi eu cwblhau neu roedd grŵpiau bach o fyfyrwyr yn gweithio

gyda thiwtoriaid i helpu i greu modiwlau newydd. Roedd y prosiectau hyn yn tueddu i ddibynnu ar frwdfrydedd darlithwyr unigol yn hytrach na bod yn rhan annatod o strategaeth y brifysgol, gyda safbwyntiau amrywiol ar faint o fewnbwn y dylai myfyrwyr gael ar i'w cwricwlwm.

- Tebygrwyddau a oedd yn tueddu i arwain at gydweithredu llwyddiannus oedd:
- Roedd prosesau **sefydlu** yn allweddol mew ymgysylltu myfyrwyr yn gychwynnol a chynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd sy'n ymwneud â datblygu cwricwlwm;
- **Myfyrwyr yn ymchwilio** opsiynau datblygu, fel defnyddio grŵpiau ffocws a arweinir gan fyfyrwyr;
- **Talu myfyrwyr** drwy interniaethau dros yr haf i gwblhau prosiectau;
- **Cyfathrebu da**, ymddiriedaeth rhwng myfyrwyr a staff;
- **Disgwyliadau clir o beth oedd goblygiadau'r prosiect** o fyfyrwyr a staff.

Mae'r astudiaethau achos i gyd ar gael ar:

http://www.heacademy.ac.uk/assets/documents/events/academyevents/2012/Students_as_Partners_Welsh_190412_1558_FINAL.pdf

Cynhadledd dysgu ac addysgu Cyfeiriadau'r Dyfodol yr HEA

Ar 26 Ebrill 2012, cymerodd y maes gwaith ran yng nghynhadledd gyntaf dysgu ac addysgu Cymru gan redeg chwech gweithdy: dau ar bob thema. Nod y tair sesiwn bore oedd adrodd ar yr astudiaethau achos; ffocws y gweithdai prynhawn oedd sganio'r gorwel. Arweiniwyd y mwyafrif o'r gweithdai hyn gan fyfyrwyr sydd ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth â'u sefydliadau, gan roi cyfle i staff ddeall beth mae myfyrwyr eisiau o weithio mewn partneriaethau. Roedd y digwyddiad yn galluogi i fyfyrwyr ddeall faint yr oedd staff yn gwerthfawrogi barn myfyrwyr, gydag un myfyriwr yn dweud yn y sesiwn lawn olaf nad oedd e'n dychmygu bod digwyddiadau fel hyn yn bodoli; ble'r oedd cymaint o staff yn dod at ei gilydd i siarad am weithio gyda myfyrwyr. Roedd y gynhadledd yn ailgryfhau ac yn dylusu'r gwersi a ddysgwyd o'r astudiaethau achos.

Datrys jargon

Roeddem yn deall fod defnyddio jargon addysg uwch o fewn cyfarfodydd yn gallu bod yn rwystr i fyfyrwyr a staff weithio mewn partneriaeth felly crewyd "jargon buster" gennym. Rhestr gynhwysfawr oedd y "jargon buster" i ddiffinio acronymau a jargon a ddefnyddir o fewn addysg uwch, megis "safonau academaidd", "AB" a "WBL". Tra'r oedd y "jargon buster" yn adnodd defnyddiol, mae ffyrdd eraill i sefydliadau sicrhau bod cyfarfodydd bob amser yn hygyrch i gynrychiolwyr.

Lawrlwythwch y "jargon buster" yma:

http://www.heacademy.ac.uk/assets/documents/nations/wales/jargon_buster.pdf

Myfyrwyr fel Partneriaid yn ymarferol

Ym mis Tachwedd 2012 cynhaliwyd digwyddiad gan y maes gwaith Myfyrwyr fel Partneriaid i ddatblygu themâu'r maes gwaith, a sefydlu myfyrwyr a oedd yn newydd i weithio mewn partneriaeth. Nod arall oedd cynyddu ymwybyddiaeth o'r maes gwaith. Rhannwyd y diwrnod i sesiynau llawn a gweithdai gyda myfyrwyr a staff yn archwilio'r cyfyngiadau potensial o weithio mewn partneriaeth a beth roedd yn ei olygu'n sylfaenol i fod yn bartner myfyriwr.

Roeddem eisiau i'r diwrnod fod mor hygyrch â phosibl i'r bobl a oedd yn cymryd rhan, ac yn adnodd i'r rheiny nad oedd yn mynychu. Sefydlwyd grŵp Facebook i ganiatau i fyfyrwyr rwydweithio a rhannu adnoddau, a defnyddiwyd yr hashtag Twitter ar y diwrnod a'r diwrnod wedyn er mwyn rhannu adnoddau a safbwyntiau.

Mynychwyd y digwyddiad gan ryw 70 o fyfyrwyr a staff, o bob sefydliad yng Nghymru. Roedd yr adborth yn cynnwys sylwadau am gyfranogwyr yn newid eu safbwynt ar beth yr oedd 'myfyrwyr fel partneriaid' yn ei olygu, a chael syniadau ymarferol ar ragor o brosiectau neu welliannau y gallent eu gwneud.

Roedd y diwrnod yn ffocysu ar y tair thema ond gwahoddwyd myfyrwyr a staff i roi eu diffiniadau o beth yr oedd 'myfyrwyr fel partneriaid' yn ei olygu iddynt. Wedyn, defnyddiwyd y diffiniadau hyn fel sail i gyfres o weithdai mewn cynadleddau cenedlaethol. Roedd diffiniadau yn cynnwys:

- Cynnwys y ddau barti ar bob cam a lefel o wneud penderfyniadau;
- Myfyrwyr yn chwarae rhan weithredol yn eu profiad yn hytrach na bod yn ddysgwyr goddefol;
- Cynghori ei gilydd fel pobl gyfartal;
- Myfyrwyr yn cyfranogi a gwneud gwahaniaeth.

Defnyddiwyd y digwyddiad gan fyfyrwyr a staff fel man diogel i drafod syniadau yn rhydd ac awgrymwyd y dylai'r digwyddiad fod yn un blynyddol.

Adrodd ein casgliadau

Drwy gydol y ddwy flynedd ddiwethaf nod y maes gwaith Myfyrwyr fel Partneriaid oedd i gyfathrebu ei gasgliadau i'r sector addysg uwch drwy ddarparu gweithdai a gwybodaeth mewn nifer o gynadleddau cenedlaethol a rhai wedi'u teilwra'n arbennig. Mae'r rhain wedi cynnwys Cynhadledd AU Grŵp Llandrillo-Menai 2012, Cynhadledd Flynyddol yr HEA 2013 a Chynhadledd Myfyrwyr fel Cynhyrchwyr 2013. Canlyniad arall yw bod grŵpiau sector eraill, fel Fforwm Iechyd Myfyrwyr Cymru, eisiau ymuno â'r prosiect a defnyddio ein harbenigedd.

Mae aelodau'r maes gwaith Myfyrwyr fel Partneriaid yn gobeithio bod y daflen hon wedi bod yn ddefnyddiol. I ddarllen rhagor o wybodaeth ar gynrychiolaeth myfyrwyr; myfyrwyr yn cefnogi myfyrwyr a llais y myfyriwr mewn dysgu ac addysgu, gweler y casgliad o astudiaethau achos drwy ddilyn y ddolen hon:

http://www.heacademy.ac.uk/assets/documents/events/academyevents/2012/Students_as_Partners_Welsh_190412_1558_FINAL.pdf

Sarah Ingram
Arweinydd Maes Gwaith Myfyrwyr fel Partneriaid
Prifysgol Caerdydd
Mai 2013

Lecture Theatre

Reception



Am Gyfeiriadau'r Dyfodol

Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru wedi ymrwymo i ddarparu myfyrwyr â'r profiad gorau posibl. Golyga hyn weithio'n barhaus i wella ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr. Mewn addysg uwch, gelwir hyn yn 'wella ansawdd' a gall ddigwydd ar lefel prifysgol, adran a chwrs. Mae prifysgolion a cholegau addysg bellach sy'n cynnig addysg uwch yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd ar raglen gwella ansawdd o'r enw 'Cyfeiriadau'r Dyfodol'.


Mae rhaglen Cyfeiriadau'r Dyfodol yn unigryw i Gymru. Mae prifysgolion, staff, myfyrwyr, colegau addysg bellach ac amrediad o fudiadau yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'r ymagweddiad hon yn gweithio yng Nghymru oherwydd maint y wlad – mae'n ddigon bach i ddod â'r rhanddeiliaid allweddol i gyd at ei gilydd, ond yn ddigon mawr i gynnig amrywiaeth eang o brifysgolion a ffyrdd creadigol o wneud pethau. Nod y rhaglen yw gwella meysydd penodol o brofiad dysgu myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys rhannu arferion a chreu syniadau ar gyfer blaengarwch mewn dysgu ac addysgu.

Caiff gwaith Cyfeiriadau'r Dyfodol ei gydlynu gan yr Academi Addysg Uwch, ac mae'n eiddo i'r sector addysg uwch yng Nghymru. Mae Cyfeiriadau'r Dyfodol yn gweithredu fesul thema; cyd-weithio ar un maes neu thema benodol ar y tro. Caiff y themâu eu dewis gan y sector addysg uwch, ar gyfer y sector addysg uwch.

Y thema gyfredol yw Graddedigion ar gyfer ein Dyfodol gyda thri maes gwaith:

- Dysgu er Cyflogaeth
- Dysgu mewn Cyflogaeth
- Myfyrwyr fel Partneriaid

I ddarganfod mwy am fenter Cyfeiriadau'r Dyfodol, gweler: <http://www.heacademy.ac.uk/wales/future-directions>



Cysylltwch â ni

Academi Addysg Uwch Cymru
d/o Addysg Uwch Cymru
2 Caspian Point
Ffordd Caspian
Bae Caerdydd
Caerdydd

+44 (0)292 0471 520
wales@heacademy.ac.uk

© The Higher Education Academy, 2013

Corff cenedlaethol yw'r HEA sy'n gwella dysgu ac addysgu ym maes addysg uwch ar draws y DU. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau ar draws y system AU i helpu gwneud newidiadau ym maes dysgu ac addysgu er mwyn gwella'r deilliannau i fyfyrwyr. Rydym yn gwneud hyn trwy gydnabod a gwobrwyo addysgu rhagorol, gan ddod â phobl ac adnoddau at ei gilydd a rhannu arfer gorau, a thrwy helpu i ddylanwadu ar, siapio a gweithredu polisi.

Mae'r HEA yn cefnogi staff addysg uwch trwy gydol eu gyrfa o'r rheiny sy'n newydd ym maes addysgu i'r rheiny sy'n uwch-reolwyr. Rydym yn cynnig gwasanaethau mewn 28 o ddisgyblaethau trwy gydol y DU ac mae gennym swyddfeydd yn Lloegr, Cymru a'r Alban. Trwy'r tîm rheoli partneriaethau rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda sefydliadau i ddeall sefyllfeydd a blaenoriaethau unigol a dod ag adnoddau at ei gilydd i'w hateb. Mae gwybodaeth, profiad ac arbenigedd gan yr HEA ym maes addysg uwch. Mae ei gwasanaeth a'i hamrywiaeth o gynnyrch yn fwy eang nag unrhyw rai o'i chystadleuwyr, ac mae pobl yn ymddiried yn yr Academi i ddarparu cyraeddiadau system AU mewn partneriaeth gyda'i sefydliadau sy'n cyfrannu.